

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talylychau nos Fawrth, 4 Chwefror 2020, am 7.30pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Sarah Walters (Is-gadeirydd yn y Gadair), Marged Bowen, John Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau. Janine Roberts, Rhys Williams, Eifion Roberts.

Datganiad o Fuddiant. Dim.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Materion sy'n codi.

Hysbysiad ynghylch sedd wag ar gyfer Cynghorydd Cymuned. Yn dilyn Hysbysiad o Gyfethol, nid oedd yr un cais wedi dod i law. Cytunwyd y dylid cysylltu â Steve Haines ynglyn â llenwi'r sedd wag. Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: J Morgan, Cyflog y Clerc: £152.46. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £38.20. Cofnodion Trywydd ar gyfer Tachwedd £14.98.

Treuliau Clerc y Fynwent – Sarah Walters £10 x 2.

Yr Archwilydd Mewnol. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â Mr L Llewelyn i fod yn Archwilydd Mewnol eto ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cerdyn diolch a gafwyd gan CFFI Llandeilo am rodd o £25.00

Rhoddion. Cytunwyd i roi'r rhoddion canlynol o dan Adran 137:

Clwb Cinio Talylychau a Llansawel £100.00. *Y Lloffwr*, £50.00. Ambiwllans Awyr Cymru, £300.00;

Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2021 £300.00. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r

Eisteddfod i weld pa dlysau oedd ar ôl i'w rhoi a oedd yn werth hyd at £300.00.

Torri porfa Mynwent yr Eglwys a'r Cae Cymunedol. Y tendrau i fod fel y llynedd ac i'w cyflwyno i'r Clerc erbyn 31.03.2020. Bydd y tendrau yn cael eu harddangos ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan. Copïau i'w hanfon hefyd at y rhai a oedd wedi dangos diddordeb y llynedd ac at unrhyw un arall sy'n gofyn.

Y Cinio Blynnyddol. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Cadeirydd, Janine Roberts, benderfynu ar le a phryd.

Cynllunio.

Cais Rhif E/40149. Twnnel Poly ar gyfer cadw defaid. Tir i'r de-orllewin o'r Bwthyn, Cwmdu ar gyfer y Parchedig Simon Bowkett, Nant Ganol, Cwmdu. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ras Hwyl Talylychau. Cytunodd y cynghorwyr ei bod yn drist clywed na fyddai'r Ras Hwyl Flynyddol yn cael ei chynnal eleni. Cytunwyd y dylai Marged Bowen a Sarah Walters alw gyda'r trefnydd i drafod.

Hyfforddiant ar ddefnyddio'r Diffibriliwr. Cytunwyd y dylid gwneud cais am fwy o sesiynau hyfforddi.

Un yn Ysgol Talylychau ac un yn Festri Cwmdu. Dylid gofyn am gael un sesiwn ar ddydd Sadwrn.

Mynwent yr Eglwys. Cytunwyd i roi hyn ar agenda cyfarfod mis Mehefin.

Cytunodd y Cynghorydd Sir Joseph Davies i fynd ar drywydd problemau ar y darn o'r ffordd rhwng mynedfa Fferm Bryngwyn a Fferm Abernaint.

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.25pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 3 Mawrth 2020, am 7.30pm.